

# Canllaw Channel

## Cwm Taf

2015 - 2017



STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE  
**RHONDDA CYNON TAF**  
TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR



**MERTHYR TYDFIL**  
County Borough Council  
Cyngor Bwrdeistref Sirol  
**MERTHYR TUDFUL**

## CYNNWYS

Diffiniadau	2
Cyflwyniad	3
Contest	3
Prevent	5
Channel	6
Proses y Panel 'Channel'	8
Rhannu gwybodaeth	8
Y ffordd ymlaen	9
Cyfeiriadau	10

## DIFFINIADAU

Mae'r wybodaeth isod yn rhoi diffiniadau o'r termau allweddol sy'n rhan o'r cynllun gweithredu hwn yng nghyd-destun Prevent / Channel:

- Caiff **'Terfysgaeth'** ei diffinio yn y Ddeddf Terfysgaeth 2000 fel gweithred sy'n peryglu bywyd neu'n achosi niwed difrifol i unigolyn neu grŵp, yn achosi difrod difrifol i eiddo neu'n amharu'n sylweddol ar system electronig. Rhaid bod y bygythiad yn bwriadu dylanwadu ar y llywodraeth neu'n dychryn y cyhoedd at ddibenion elwa'n wleidyddol, yn grefyddol neu'n ideolegol.
- Mae **'Radicaliaeth'** yn cyfeirio at y broses sy'n denu pobl i gefnogi terfysgaeth a ffurfiau o eithafiaeth sy'n arwain at derfysgaeth.
- Mae **'Eithafiaeth'** yn wrthwynebiad llafar neu weithredol i werthoedd sylfaenol gan gynnwys democratiaeth, rheolau'r gyfraith, rhyddid unigol a pharch a goddefgarwch o wahanol gredoau a ffydd.
- Mae **'Hyglwyfedd/ Agored i niwed'** yng nghyd-destun PREVENT yn ymwneud â pherson sy'n agored i negeseuon eithafwyr a bod risg y byddai'n cael ei dynnu i mewn i derfysgaeth neu gefnogi terfysgaeth ar unrhyw adeg.

## CYFLWYNIAD

Mae **Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015** yn rhoi dyletswydd ar gyrff arbennig, **awdurdodau lleol, gwasanaethau iechyd, heddlu, gwasanaeth prawf ac addysg**, i roi 'sylw priodol i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu tuag at derfysgaeth'. Mae'r Ddeddf yn nodi fod rhaid i bob awdurdod lleol sicrhau bod panel o bobl yn gweithredu yn yr ardal gyda chyfrifoldeb dros asesu pa mor hyglwyf/agored yw unigolion i gael eu denu tuag at derfysgaeth. Rhaid i gadeirydd y panel fod wedi'i gyflogi gan yr awdurdod lleol cyfrifol.

Mae 'CHANNEL' yn rhan o'r drefn lywodraethol 'CONTEST'. Mae hi'n broses wirfoddol lle caiff pobl sydd wedi'u hatgyfeirio (unigolion sydd wedi'u hatgyfeirio gan yr Heddlu a phartneriaid) eu hystyried yn agored i radicaliaeth ac yn cael eu cynorthwyo i ddargyfeirio er mwyn atal radicaliaeth.

Mae terfysgaeth yn fygythiad difrifol. Gall derfysgwyr ymosod ar unrhyw adeg yn unrhyw le heb rybudd.

Prif ffocws Panel 'Channel' Cwm Taf yw cydweithio â chymunedau, a gweithredu eu rhan.

Mae sicrhau cefnogaeth a hyder gan gymunedau ac asiantaethau partner i wella llif cyfnewid gwybodaeth yn hanfodol er mwyn dod o hyd i'r rheiny sydd fwyaf hyglwyf ac sydd mewn angen o ran derbyn cymorth ac ymyrraeth.

Blaenoriaeth Panel 'Channel' Cwm Taf yw diogelu'r cyhoedd, drwy weithio ar y cyd ag asiantaethau partner a'n cymunedau i fynd i'r afael â phob math o eithafiaeth - treisgar a di-drais, beth bynnag eu hil, diwylliant, crefydd neu duedd gwleidyddol.

## Rhaglen CONTEST

Mae strategaeth dymor hir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer atal terfysgaeth ryngwladol. Enw'r strategaeth honno yw CONTEST. Mae'r strategaeth genedlaethol yma yn ystyried y bygythiad newidiol a'r heriau newydd sy'n wynebu'r Deyrnas Unedig, a'i thiriogaethau dibynnol, ond mae ei nod yn aros yr un fath:

Lleihau'r risg i'r Deyrnas Unedig a'i buddiannau tramor oddi wrth derfysgaeth, fel bod pobl yn medru byw eu bywydau yn rhydd a chyda hyder.

Mae Bwrdd Contest aml-asiantaethol ar waith yng Nghwm Taf er mwyn sicrhau ymateb partneriaeth ar lefel strategol i fynd i'r afael â'r meysydd a phryderon allweddol hyn.

Mae'r strategaeth yn cynnwys 4 elfen wahanol, sef:

- **Atal**
- **Dilyn**
- **Diogelu**
- **Paratoi**

**Atal** - ffocws ar **ymyrraeth gynnar** cyn bod unrhyw weithred anghyfreithlon yn cael ei chyflawni ac felly'n ymwneud â'r **cyfnod cyn-drosedd**. Drwy gynnwys ystod eang o bartneriaid, mae'r rhaglen yn bwriadu lleihau'r risg fod pobl yn mabwysiadu barn eithafol sy'n cefnogi terfysgaeth ar adeg gynnar.

**Dilyn** - ffocws ar ddatgelu a **tharfu ar fygythiadau o derfysgaeth**. Wedi'i dargedu at bobl sydd wedi cyflawni trosedd neu sy'n bwriadu cyflawni trosedd.

**Diogelu** - **cryfhau ein seilwaith yn erbyn ymosodiad**, gan gynnwys adeiladau, manau cyhoeddus a'n ffiniau.

**Paratoi** - ffocws ar adegau lle **nad oes modd atal ymosodiad** gyda'r bwriad o leihau'r effaith drwy ymateb yn effeithiol.

Mae darparu 'Contest' mewn modd effeithiol yn dibynnu ar gyfraniad gan bartneriaid cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ar draws sectorau amrywiol.

Yn aml iawn, y bobl sy'n gweithio yn yr ardal ac mewn swyddi sy'n diogelu'r gymuned, h.y ymweld â chartrefi, gwirfoddoli, rolau diogelu, neu'r rheiny sydd eisoes yn gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed, yw'r bobl gyntaf i sylwi ar arwyddion o bryder. Mae cymorth y cyhoedd yn hanfodol, oherwydd, mai nhw fel arfer sy'n sylwi ar ymddygiadau 'pryderus' yn gynnar. Mae'n hynod bwysig fod unigolion yn rhoi gwybod am eu pryderon cyn bod argyfwng yn codi.

## PREVENT

Atal yw'r 'unig ateb tymor hir' i'r bygythiad rydyn ni'n ei wynebu yn sgil terfysgaeth ar hyn o bryd. Mae Atal yn ymwneud â gweithredu cyn bod unrhyw drosedd yn cael ei gyflawni.

Yn 2011, cafodd y strategaeth PREVENT ei diwygio gan Lywodraeth y DU er mwyn canolbwyntio ar 3 prif thema.

- Ymateb i her **ideolegol** terfysgaeth a'r bygythiad yr ydym yn ei wynebu gan y rhai sy'n ei hyrwyddo;
- Atal **unigolion** rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth a sicrhau eu bod yn cael cyngor a chefnogaeth addas
- Gweithio gyda sectorau a **sefydliadau** pan fydd risg o radicaleiddio y mae angen i ni ymdrin â hi.

Mae 'atal' yn ymdrin â phob math o fygythiadau terfysgaeth ac elfennau o eithafiaeth dreisgar a di-drais. Mae'r strategaeth yn hyblyg ac yn mynd i'r afael â bygythiadau newydd.

Caiff ei blaenoriaethu yn ôl y peryglon rydyn ni'n eu hwynebu beth bynnag fo'r ffydd neu ethnigrwydd. Caiff y flaenoriaeth ei seilio ar asesiad o ymgysylltiad, bwriad a gallu, heb fod yn unol â demograffeg neu gymunedau.

Elfen allweddol o'r strategaeth 'Atal' yw diogelu'r rheiny a allai fod yn agored i gael eu denu tuag at eithafiaeth dreisgar. Ei bwriad yw diogelu pobl ifainc ac oedolion hyglwyf rhag niwed, camdriniaeth neu ymelwad ac atal radicaliaeth.

Er mwyn dileu'r bygythiad sy'n ymwneud ag eithafiaeth dreisgar a di-drais yn llwyddiannus, mae'n rhaid gweithio ar y cyd â'n cymunedau i alluogi pobl i wneud penderfyniadau bywyd cadarnhaol. Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn nodi bod rhaid i bob ardal roi cynlluniau gweithredu lleol ar waith er mwyn cynorthwyo unigolion sy'n agored i niwed. Yr enw ar y broses hon yw CHANNEL.

## CHANNEL

Mae 'Channel' yn broses genedlaethol ar gyfer diogelu unigolion a allai fod yn agored i gael eu recriwtio gan eithafwyr treisgar neu'n agored i radicaliaeth.

Bwriad y broses yw:

- Cynorthwyo a diogelu pobl a allai fod yn agored i radicaliaeth yn gynnar er mwyn iddyn nhw beidio â chael eu denu tuag at weithredoedd troseddol a allai effeithio ar eu cyfleoedd bywyd.
- Sicrhau fod gan unigolion a chymunedau'r gallu i wrthsefyll pob math o eithafiaeth dreisgar. Gall hyn gynnwys materion Al-Qaeda, hawliau anifeiliaid, yr amgylchedd neu unrhyw fath arall.

Dydy 'Channel' ddim yn erlyn neu'n cyhuddo unigolion sydd wedi cael eu hatgyfeirio. Bwriad 'Channel' yw gweithio gydag asiantaethau partner i gefnogi pobl hyglwyf yn gynnar a'u hatal nhw rhag cael eu denu tuag at eithafiaeth dreisgar mewn unrhyw ffurf.

Mae arwyddion blaenorol sy'n gysylltiedig â phobl yn cael eu denu tuag at eithafiaeth a therfysgaeth yn cynnwys:

- Symbolau graffiti, ysgrifen neu waith celf sy'n hyrwyddo negeseuon neu ddelweddau eithafol
- Cyrchu deunydd ar-lein; gwefannau, cyfryngau cymdeithasol a.y.b
- Camddefnyddio cyffuriau neu alcohol
- Mynegi barn sy'n gysylltiedig ag ideoleg neu naratif eithafol
- Trosedd casineb ar sail hil
- Pwysau gan gyfoedion
- Bwlio
- Dylanwad gan bobl eraill neu bobl ar y we
- Trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Trais domestig
- Tyndra yn y teulu
- Diffyg hunan hyder neu hunaniaeth

Mae 'Channel' yn asesu natur ac ehangder y risg posibl sy'n wynebu unigolyn a chymunedau, a lle bod angen, mae'n cynnig pecyn cymorth sy'n addas ar gyfer eu

hanghenion. Caiff y cynllun gweithredu ei greu gan banel amlasiantaethol. Gall gynnwys gweithgareddau dargyfeiriol ac/neu gymorth gan y gwasanaethau addysg, tai, cyflogaeth a mentora. Mae'r pecyn cymorth yn cael ei baratoi i helpu unigolion i wrthwynebu'r rhai sy'n ceisio achosi niwed neu'u radicaleiddio. Gall materion a thensiwn lleol a chenedlaethol gyfrannu at ymddygiad unigolyn.

Mae Channel yn derbyn atgyfeiriadau ar gyfer unrhyw unigolyn sy'n dangos hygwyfedd i eithafiaeth dreisgar, beth bynnag ei oedran.

Mae ymglymiad drwy bartneriaeth yn sicrhau bod y rheiny sydd mewn perygl yn medru manteisio ar ystod eang o gymorth. Mae partneriaethau'n cynnwys:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
  - I. Partneriaeth Cymunedau Diogel
  - II. Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaethau i Oedolion/Plant
  - III. Addysg
  - IV. Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc
- Heddlu De Cymru ac Uned Eithafiaeth a Gwrth-derfysgaeth Cymru
- Cwmni Adfer Cymunedau
- Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Cymdeithasau Tai
- Gwasanaeth Iechyd
- Prifysgol De Cymru
- Sefydliadau Addysg Bellach

Mae'n bosib y bydd asiantaethau, grwpiau ffydd, sefydliadau gwirfoddol eraill ac ati yn rhan o'r broses Channel, os ydy amgylchiadau'r unigolyn sydd wedi cael ei atgyfeirio yn gofyn am hynny.

### Achos Enghreifftiol

Mae disgybl yn dechrau camymddwyn yn yr ysgol - mae ganddo broblemau sy'n ymwneud â'i berthynas â'i rieni, yn ogystal â dadrithiad amlwg â'r ffordd y mae pobl eraill yn ymarfer ei ffydd.

Mae e'n cwrdd ag oedolyn ifanc arall sy'n trafod ei gwestiynau ac yna'n ei wahodd e a'i ffrindiau i dŷ yn y dref ar gyfer sesiwn 'hyfforddiant' – a hyd yn oed mynd i noson rieni'r bachgen, 'ar ran' ei rieni.

Unwaith bod pryderon yn cael eu rhannu ymhlith staff yr ysgol, mae'r rhieni yn cael gwybod, a chaiff cynllun cymorth ei roi ar waith sy'n cynnwys sesiynau cyngori un-i-un gyda chynghorwr o'r gymuned.

## PROSES Y PANEL 'CHANNEL'

- Atgyfeiriad gan dîm Rheoli Achos yr Heddlu neu wasanaeth trydydd parti, e.e. y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Manylion yr atgyfeiriad yn cael eu cylchredeg gan gadeirydd Channel yr Awdurdod Lleol i sefydliadau partner ar gyfer arolwg cwmpasu
- Cyflawni Asesiad Hyglwyfedd Cychwynol - i'w gynnal bob 3 mis ar ôl hyn
- Cadeirydd yr Awdurdod Lleol yn trefnu bod y Panel Channel yn ymgynnull
- Trafod yr atgyfeiriad a chytuno ar gamau gweithredu
- Comisiynu darparwr ymyraethau allanol
  - Darparwr ymyraethau i gwrrd â'r unigolyn sydd wedi cael ei atgyfeirio a chyflwyno argymhellion i Channel. Mae'n bosib y bydd angen cynnal sawl cyfarfod.
  - Cynnwys argymhellion yn y cynllun gweithredu atgyfeiriadau.
- Cadeirydd yr Awdurdod Lleol yn cylchredeg y cynllun gweithredu - Awdurdod Lleol i gydlynu a rheoli camau gweithredu
- Traciwr yr Awdurdod Lleol i gael ei ddiweddarau gan Gadeirydd yr Awdurdod Lleol - Cydlynnydd Channel WECTU i ddiweddarau traciwr y CMIS.
- Panel Channel i ail-ymgynnull ar ôl cyfnod sy'n briodol

## RHANNU GWYBODAETH

Mae rhannu gwybodaeth yn rhan angenrheidiol o raglen Channel. Bydd atgyfeiriadau o asiantaethau eraill, ceisiadau am waith cwmpasu gan bartneriaethau gyda cheisiadau am wybodaeth, yn cael eu hanfon i aelodau o'r panel gan yr Heddlu neu'r Cadeirydd Channel. Mae Channel yn gweithredu o fewn nifer o fframweithiau cyfreithiol a statudol er mwyn sicrhau bod egwyddorion diogelu data a hawliau dynol yn cael eu dilyn. Rhaid bod unrhyw gamau cyfnewid gwybodaeth yn angenrheidiol, cyfatebol ac yn gyfreithlon.



## Y Ffordd Ymlaen

### Gweithdy i godi ymwybyddiaeth ynghylch Rhaglen Prevent (WRAP)

Nodwyd bod staff rheng flaen y sector cyhoeddus yn grŵp allweddol o ran gwneud cyfraniad pwysig i adnabod ac atgyfeirio unigolion a allai fod yn agored i radicaliaeth.

Mae WRAP yn weithdy arbenigol sy'n cynnig y canlynol i gyd-weithwyr:

- Dealltwriaeth o'r strategaeth atal a'u rôl nhw o fewn y strategaeth
- Y gallu i ddefnyddio'u harbenigedd a barn broffesiynol i adnabod unigolion hyglwyf sydd efallai angen cymorth
- Dulliau diogelu ac atgyfeirio lleol a phobl i'w cysylltu â nhw am help a chyngor ychwanegol

Bydd y gweithdy yn para 2 - 2.5 awr ac yn cynnwys defnydd o DVD a hwylusydd. Mae modd ei ddarparu i grwpiau o 15-30 o bartneriaid aml-asiantaethol, gan alluogi pawb i rwydweithio a rhannu arbenigedd.

Mae'r gweithdy yn gyflwyniad i'r strategaeth atal. Mae'n ymdrin â materion fel troseddau a phrosesau cymdeithasol sy'n cael eu defnyddio i ddylanwadu ar astudiaethau achos adain dde eithafol ac Al-Qaeda, ideolegau terfysgwyr a ffactorau a allai cyfrannu at ba mor agored yw unigolyn i ideoleg terfysgwyr.

Mae WRAP yn cynnig dealltwriaeth ymarferol o 'Atal', yn enwedig o ran diogelu ymarferwyr. Mae pob un o hwyluswyr WRAP wedi cael eu hachredu gan y Swyddfa Gartref er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn gyson ac o safon uchel.

I gael rhagor o wybodaeth, neu i drefnu sesiwn ar gyfer tîm, neu i fynegi eich diddordeb fel unigolyn, cysylltwch â Janine Thomas (Catherine.J.Thomas@rctcbc.gov.uk) 01443 425673. Caiff hyfforddiant ei ddarparu am ddim.

Dilynwch y ddolen isod i gyflawni modiwl Ymwybyddiaeth Gyffredinol 'Channel' :

[http://course.ncalt.com/Channel\\_General\\_Awareness/01/index.html](http://course.ncalt.com/Channel_General_Awareness/01/index.html).

Mae'r modiwl yn nodi gwybodaeth am 'Channel' ac am ddyletswyddau a chyfrifoldebau.

Bwriad y modiwl yw:

- Esbonio sut mae Channel yn gysylltiedig â strategaeth gwrthderfysgaeth y Llywodraeth (CONTEST)
- Disgrifio'r broses 'Channel' a'i phwrpas

- Nodi ffactorau a allai wneud pobl yn agored i radicaliaeth
- Diffinio perchnogaeth diogelu a risg y broses 'Channel'

## CYFEIRIADAU

Strategaeth 'Contest' Llywodraeth Ei Mawrhydi -

[https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/97995/strategy-contest.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/97995/strategy-contest.pdf)

Strategaeth 'Prevent' Llywodraeth ei Mawrhydi (2011) -

[https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/388934/45584\\_Prevent\\_duty\\_guidance](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/388934/45584_Prevent_duty_guidance)

Canllawiau Dyletswyddau 'Channel' Llywodraeth Ei Mawrhydi (2015) - Diogelu pobl hyglwyf rhag cael eu denu tuag at derfysgaeth (Canllawiau statudol ar gyfer aelodau o'r Panel 'Channel' a phartneriaid paneli lleol) -

[https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/425189/Channel\\_Duty\\_Guidance\\_April\\_2015.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/425189/Channel_Duty_Guidance_April_2015.pdf)